# Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Moderneiddio Addysg**
☎ (01286) 679247 Ein Cyf / Our Ref: **MA**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**At:** Holl ymgynghorai yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion yn Nalgylch Bangor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

22 Tachwedd 2018

Annwyl Ran-ddeiliad

**Parthed: Ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor**

Ar ddydd Mawrth, 6 Tachwedd, 2018, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd y cynnig i gau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni) a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420 yn weithredol o **1 Medi 2020.** Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar **21 Tachwedd 2018.**

Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 4 Medi 2018 a 2 Hydref 2018. Derbyniwyd **1** gwrthwynebiad ysgrifenedig ar bapur. Crynhoir y gwrthwynebiadau ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol yn yr adroddiad gwrthwynebu (adroddiad i'r Cabinet 6 Tachwedd 2018). Mae'r adroddiad gwrthwynebu ynghyd â dogfennau eraill perthnasol ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Ystyriodd y Cabinet y cynnig, y gwrthwynebiad a dderbyniwyd ac ymateb yr awdurdod lleol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Wrth benderfynu ar y cynnig roedd y Cabinet yn fodlon bod y cynnig yn:

- Gwella cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch
- Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
- Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion
- Rhyddhau cyllideb i'w wario ar blant o fewn gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau
- Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion.
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Gwella'r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif.
- Gwella cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd.

**At-gyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol i Weinidogion Cymru**
Dan Adran 54 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, os yw cynigion wedi'u cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol, gall y cyrff canlynol at-gyfeirio'r cynigion cyn pen 28 diwrnod i Weinidogion Cymru eu hystyried:

i. Awdurdod Lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.

Bydd angen i'r cyrff sy'n at-gyfeirio nodi pam eu bod o'r farn bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir.

Bydd cyswllt rheolaidd gyda rhan ddeiliad sydd yn cael ei effeithio yn dilyn y penderfyniad i'w diweddaru ynglŷn â'r broses.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, mae modd i chi gysylltu gyda moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Yn gywir,



**Garem Jackson**
**Pennaeth Addysg**